PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD MAWRTH, 25 HYDREF 2022

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Aelodau Annibynnol: Jason Bartlett (Cadeirydd)<br>Arthur Hallett, David Mills and Chrissie Nicholls<br>Y Cynghorwyr: Jayne Cowan<br><br>Cynghorydd Cymuned Julia Charles |

13 : AELODAETH Y PWYLLGOR

Croesawodd y Cadeirydd Julia Charles, Aelod Cyngor Cymuned newydd y Pwyllgor, i'r Pwyllgor.

14 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rashpal Singh a’r Cynghorydd Cunnah.

15 : DATGANIADAU BUDDIANNAU

Datganodd Davina Fiore, y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a’r Swyddog Monitro, fuddiant personol yn Eitem 7, Arsylwi Cyfarfodydd a buddiant rhagfarnus yn Eitem 15, Datganiadau Buddiannau Personol Uwch Swyddogion.

16 : COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod ar 22 Mehefin 2022 eu cymeradwyo yn amodol ar ddiwygiad, sef cofnodi presenoldeb yr Aelodau Annibynnol Jason Bartlett, Chrissie Nichols, Arthur Hallett a David Mills yn y cyfarfod.

17 : DYLETSWYDDAU NEWYDD ARWEINWYR GRWPIAU MEWN PERTHYNAS Â SAFONAU YMDDYGIAD

Roedd yr Arweinwyr Grwpiau; y Cynghorwyr Huw Thomas, Adrian Robson a Rhys Taylor a’r Chwipiau; y Cynghorwyr Helen Gunter a Dan Naughton yn bresennol i drafod yr eitem hon.

Gwahoddodd y Cadeirydd Davina Fiore, y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a’r Swyddog Monitro, i gyflwyno'r eitem. Diben yr eitem oedd galluogi'r Pwyllgor i ystyried trefniadau i gael eu rhoi ar waith er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau newydd arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad a dyletswyddau newydd cyfatebol a roddir ar bwyllgorau safonau (a gyflwynwyd gan Ran 4 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, 'Deddf 2021').

Dywedwyd wrth yr aelodau fod dyletswydd statudol newydd ar yr Arweinwyr Grwpiau i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ac ar y Pwyllgor i fonitro cydymffurfiaeth yr Arweinwyr Grwpiau, ac y byddai Adroddiad Profforma ar gael i’r Arweinwyr Grwpiau, pe bai'n cael ei gymeradwyo, i'w gwblhau a'i ddychwelyd, sy'n darparu llwybr archwilio i'r Pwyllgor fonitro bod yr Arweinwyr Grwpiau’n cyflawni eu dyletswyddau a bod y Pwyllgor yn ei dro yn cyflawni ei ddyletswyddau.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod 94% o’r Aelodau Etholedig wedi mynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad, ac y byddai sesiwn ddilynol arall yn cael ei chynnal.

Gofynnwyd am eglurhad o ran a fyddai angen cwblhau'r profforma cyn pob cyfarfod y Pwyllgor neu dim ond pan oedd cwyn; ac o ran a ddisgwylid i’r Arweinwyr Grwpiau fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn barhaus. Dywedodd y swyddogion mai'r bwriad oedd cwblhau'r profforma ar adegau pan fynychodd yr Arweinwyr Grwpiau gyfarfodydd y Pwyllgor. Roedd amlder hyn i'w benderfynu trwy drafodaeth. Awgrymwyd y gallai fod yn briodol cynyddu'r amlder o flynyddol i bob 6 mis. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr Arweinwyr Grwpiau’n hapus i weithio gyda'r profforma diwygiedig a'r amlder a awgrymwyd. Atgoffwyd yr aelodau y gallai'r profforma fod yn faich arbennig i arweinwyr grwpiau mawr, yn enwedig pan oedd arweinwyr o'r fath hefyd yn Arweinwyr y Cyngor. Dywedodd y swyddogion y byddai cymorth yn cael ei roi i’r Arweinwyr Grwpiau wrth gwblhau adroddiadau.

Nododd yr aelodau ei bod yn ddefnyddiol dangos sut yr oedd y Pwyllgor yn gweithredu ar ganfyddiadau'r Arolwg Defnyddwyr a'r Arolwg Ymadael.

PENDERFYNODD y Pwyllgor:

1) Gymeradwyo’r Adroddiad Profforma diwygiedig i’r Arweinwyr Grwpiau (Atodiad B) yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau y cytunwyd arnynt;
2) Awdurdodi'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i wneud unrhyw ddiwygiadau y cytunwyd arnynt i’r Adroddiad Profforma i’r Arweinwyr Grwpiau, a'i anfon at yr Arweinwyr Grwpiau i'w gwblhau a'i ddychwelyd cyn cyfarfod y Pwyllgor a drefnwyd i'w gynnal ym mis Mai 2023;
3) Cytuno i ystyried Adroddiadau'r Arweinwyr Grwpiau yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai 2023;
4) Cytuno i ofyn i’r arweinwyr grwpiau gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor wedi hynny bob 6 mis; a

Chytuno y dylid darparu hyfforddiant i gynorthwyo’r arweinwyr grwpiau i gydymffurfio â'u dyletswyddau newydd.

## 18 : CYMHARU AROLYGON YMADAEL AELODAU ETHOLEDIG 2017 A 2022

Rhoddwyd crynodeb i'r aelodau o'r dadansoddiad cymharol o wybodaeth a gasglwyd o Arolygon Ymadael Aelodau 2017 a 2022. Gofynnwyd am hyn gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod blaenorol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Swyddogion wedi treulio amser yn mynd drwy'r Cod Cyfryngau Cymdeithasol gyda’r Aelodau Etholedig yn ystod hyfforddiant Cod Ymddygiad, ac mai ychydig o gwynion oedd wedi’u derbyn ers yr Etholiadau Llywodraeth Leol.

Mynegwyd pryder yn y nifer uchel o Aelodau Etholedig sy'n nodi yn yr Arolwg eu bod wedi profi neu fod yn dyst i ymddygiad annerbyniol. Cadarnhaodd y swyddogion y gofynnwyd i’r Aelodau Etholedig hynny a oedden nhw wedi adrodd y digwyddiad ac i bwy. Nid oedd nifer sylweddol wedi adrodd digwyddiadau; roedd y rheiny a oedd wedi adrodd yn fodlon ar y canlyniad. Awgrymwyd y dylid gofyn i’r Arweinwyr Grwpiau atgoffa’r Aelodau Etholedig o'r cyfle a'r broses ar gyfer codi pryderon.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o ran sut roedd lefel yr ymddygiad annerbyniol a nodwyd yng nghanlyniadau'r Arolwg yn cymharu â nifer y cwynion a oedd wedi'u datrys yn anffurfiol, ac a oedd modd rhannu gwybodaeth am gwynion a ddatryswyd yn anffurfiol. Cadarnhaodd y swyddogion fod yr Arolwg yn nodi bod mwy o ddigwyddiadau'n digwydd na'r nifer sy'n cael eu cyflwyno mewn gweithdrefnau cwyno ffurfiol. Weithiau mae'r Aelodau Etholedig yn gwneud Swyddogion yn ymwybodol o ddigwyddiadau ond yn gofyn am beidio codi'r mater gyda'r cyflawnwr honedig.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o ran a gafodd cyngor ei roi i'r Aelodau Etholedig cyn yr Arolwg ar ba fath o ymddygiadau oedd yn gyfystyr â bwlio. Dywedodd y swyddogion nad oedd unrhyw ddiffiniad o fwlio yn cael ei gyfleu i'r Aelodau Etholedig adeg yr Arolwg. Roedd trafodaeth o ran a ddylid cynnwys diffiniadau o fwlio ac ymddygiad annerbyniol mewn Arolygon yn y dyfodol. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y Cod Ymddygiad yn gosod trothwy uchel ar y diffiniad o fwlio o fewn cyd-destun cyfarfodydd y Cyngor, ac y gallai fod yn ddi-fudd creu canfyddiad y byddai pob ymddygiad a ganfuwyd yn annerbyniol gan unigolyn o reidrwydd yn gyfystyr â bwlio dan y Cod.

Gofynnwyd am eglurhad o ran sut y cafodd sawl adroddiad o fod yn dyst i'r un digwyddiad eu coladu yn yr Arolwg. Dywedodd y swyddogion y gofynnwyd i'r ymatebwyr ar wahân a oedden nhw wedi profi neu fod yn dyst i ymddygiad annerbyniol, er nad oedd modd canfod a oedd adroddiadau tystion yn ymwneud â'r un digwyddiad. Trafodwyd pwysigrwydd diffinio'r hyn a oedd yn gyfystyr â bwlio ac ymddygiad annerbyniol. Gall canfyddiadau unigolion o'r un digwyddiad fod yn wahanol. Cytunwyd y dylai'r Swyddogion archwilio sut y gellid gwella geiriad y cwestiynau perthnasol.

Trafodwyd pwysigrwydd peidio rhwystro'r Aelodau Etholedig rhag adrodd ymddygiad annerbyniol. Mynegwyd y farn bod angen cymryd gofal, wrth ysgrifennu diffiniadau o ymddygiad annerbyniol, nad yw'r trothwy yn cael ei osod mor uchel ag yn y Cod Ymddygiad rhag ofn y bydd achosion o ymddygiad annerbyniol yn cael eu methu. Mynegwyd pryder y gallai cyfyngu ar adrodd digwyddiadau sy'n cyrraedd trothwy'r Cod Ymddygiad annog diwylliant lle'r oedd ymddygiad nad oedd yn cwrdd â'r trothwy hwnnw'n cael ei ystyried yn dderbyniol.

Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth am gynnwys hyfforddiant Cod Ymddygiad mewn perthynas ag ymddygiad annerbyniol. Dywedodd y swyddogion fod yr hyfforddiant yn cwmpasu toriadau posibl o'r cod. Mae hyfforddiant Cod Ymddygiad yn ystod cyfnodau sefydlu'n fyr o reidrwydd gan fod llawer iawn o hyfforddiant ar yr un pryd y mae angen i'r Aelodau Etholedig ei gwblhau.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o ran diffyg data wedi'i ddadansoddi ar rai nodweddion gwarchodedig megis ethnigrwydd a chrefydd. Dywedodd y swyddogion fod y data'n gyfyngedig oherwydd bod yr Aelodau Etholedig wedi methu ag ymateb i gwestiynau ar nodweddion gwarchodedig. Roedd anhawster cymharu â chanlyniadau arolwg 2017 oherwydd gwahaniaethau yn y wybodaeth a geisiwyd. Mynegwyd y farn nad oedd yr opsiynau oedd ar gael ar gyfer cofnodi ethnigrwydd bob amser yn cyd-fynd â'r ffordd yr oedd pobl yn hunaniaethu. Dywedodd y swyddogion fod yr opsiynau oedd ar gael yn seiliedig ar y Safonau Corfforaethol ac y gallai fod modd eu haddasu ar ôl trafod gydag AD.

Trafododd yr aelodau’r posibilrwydd o gynnal arolwg blynyddol ac a fyddai modd gofyn i’r Aelodau Etholedig a oedden nhw wedi adrodd digwyddiadau a'u rhesymau dros beidio gwneud hynny. Awgrymwyd y gallai hyn arwain at ymchwil pellach i ddigwyddiadau nas adroddir digon. Dywedodd y swyddogion y gallai cwestiynau gael eu cyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol i'w cymeradwyo, ac y gallai amseru'r arolwg nesaf, a fyddai, mae'n debyg, ar ddiwedd sesiwn 2023-2024, gael ei drafod.

PENDERFYNODD y Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

19 : ARSYLWI CYFARFODYDD

Rhoddwyd adborth arsylwi i'r Pwyllgor mewn perthynas â chyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022.

Datganodd Davina Fiore, y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a’r Swyddog Monitro fuddiant fel Swyddog sy'n ymwneud â mater sy'n codi o'r cyfarfod.

PENDERFYNODD y Pwyllgor:

(1) Nodi'r adborth arsylwi a gafwyd, fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad; a Pharhau i arsylwi cyfarfodydd y Cyngor, Pwyllgorau a Chynghorau Cymuned a rhoi adborth i'r Pwyllgor.

20 : DIWEDDARIAD CWYNION COD YMDDYGIAD AELODAU – CHWARTERI 1 A 2 2022-23

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gwynion a wnaed yn erbyn Aelodau Cyngor Caerdydd neu unrhyw un o Gynghorau Cymuned Caerdydd, yn honni toriad o’r Cod Ymddygiad Aelodau, yn benodol, cwynion a gafwyd yn ystod Chwarteri 1 a 2 2022/23 (y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Medi 2022).

Dywedodd wrth yr aelodau fod lefel y cwynion yn gymharol isel, a bod rhai wedi cael eu datrys yn anffurfiol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod un o'r cwynion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad wedi cael ei thynnu'n ôl.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o ran nifer y cwynion a gafwyd yn Chwarter 2, mis Gorffennaf - mis Medi 2022. Cadarnhaodd y swyddogion mai 2 oedd y rhif cywir.

Gofynnodd yr aelodau a ymdriniwyd â chwynion yn amserol a beth os unrhyw beth oedd yn amharu ar eu datrys. Dywedodd y swyddogion fod y camau cychwynnol tuag at ddatrys yn cael eu cymryd yn gyflym ar ôl derbyn cwyn. Weithiau mae oedi cyn derbyn ymatebion i gwynion neu gasglu gwybodaeth gan dystion. Gall oedi arall gael ei achosi gan bwysau gwaith arall, yn enwedig adeg etholiadau a hyfforddiant sefydlu Cynghorwyr newydd. Mae adnodd staff yn gyfyngedig; fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o gwynion yn cael eu datrys yn weddol gyflym neu eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Safonau. Roedd y cyfnod o alaru cyhoeddus i'r Frenhines hefyd wedi effeithio ar y rhaglen waith. Dywedwyd wrth yr aelodau y gall datrysiad wedi’i oedi fod o gymorth weithiau pan fo safleoedd disymud.

Nododd yr aelodau fod disgwyl o hyd am benderfyniad gan yr Ombwdsmon ynglŷn â chwyn yn ymwneud â Chwarter 3 2021/22 a gofynnon nhw a oedd hyn yn normal. Dywedodd y swyddogion fod llwyth gwaith trwm gan yr Ombwdsmon a bod nifer y cwynion sy'n cael eu hatgyfeirio ato wedi cynyddu'n sylweddol. Weithiau mae oedi mewn penderfyniadau yn cael ei achosi gan faterion gyda'r achwynydd neu'r ymatebwr, fel salwch. Ni fyddai swyddogion yn gwybod am y rheswm dros oedi wrth wneud penderfyniadau mewn achosion penodol.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o ran sut mae cwynion yn pasio o ddatrysiad anffurfiol i ddatrysiad anffurfiol. Dywedodd y swyddogion ei fod yn aml yn ymwneud ag agwedd y partïon dan sylw, a allai fod yn barod i wneud datrysiad cyflym ac anffurfiol neu beidio. Mae'n well gan y rhan fwyaf o Aelodau Etholedig, wrth glywed am gŵyn yn eu herbyn, wneud datrysiad cyflym; mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag, mae safleoedd yn ddisymud ac mae datrysiad cynnar yn dod yn anodd.

PENDERFYNODD y Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

## 21 : ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021-22

Gwahoddodd y Cadeirydd Davina Fiore, y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a’r Swyddog Monitro, i gyflwyno'r eitem. Diben yr eitem oedd ystyried cynnwys Adroddiad Blynyddol 2021/22 a chymeradwyo trefniadau ar gyfer cwblhau'r adroddiad a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod cynhyrchu adroddiad blynyddol, a gynhaliwyd mewn blynyddoedd blaenorol, bellach wedi dod yn ofyniad statudol; rhywbeth y mae'r pwyllgor hwn eisoes wedi bod yn ei wneud.

Mynegodd yr aelodau eu boddhad gyda chynnwys yr adroddiad drafft.

PENDERFYNODD y Pwyllgor:

1) Gytuno ar gynnwys a strwythur arfaethedig Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2021/22;
2) Dirprwyo awdurdod i’r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor i ddrafftio a chwblhau'r Adroddiad Blynyddol, gan ystyried y sylwadau a gafwyd gan Aelodau’r Pwyllgor;
3) Gofyn i'r Cadeirydd gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 yng nghyfarfod addas nesaf y Cyngor llawn; a

Chyfarwyddo'r Swyddog Monitro i anfon Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 i bob un o'r Cynghorau Cymuned yng Nghaerdydd, a chopi i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 22 : DEFNYDD AELODAU O TG Y CYNGOR AR GYFER CYFARFODYDD GRWPIAU GWLEIDYDDOL

Gwahoddodd y Cadeirydd Davina Fiore, y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a’r Swyddog Monitro i gyflwyno'r eitem. Diben yr eitem oedd ystyried polisi'r Cyngor mewn perthynas â defnydd Aelodau o adnoddau'r Cyngor, yn benodol, mewn ymateb i gais gan chwipiau grwpiau pleidiau i ganiatáu i Aelodau ddefnyddio offer TG y Cyngor ar gyfer cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol o bell / hybrid.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor, dan y Cod Ymddygiad, nad oedd cynghorwyr yn cael defnyddio adnoddau'r Cyngor at ddibenion gwleidyddol oni bai bod y Cyngor yn cytuno i hynny; ac ailadroddwyd hyn mewn canllawiau gan yr Ombwdsmon, gyda'r amod y gall y Cyngor awdurdodi Cynghorwyr i ddefnyddio ei adnoddau a'i gyfleusterau at ddibenion gwleidyddol mewn cysylltiad â busnes yr Awdurdod, megis cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod cynghorwyr o wahanol grwpiau gwleidyddol wedi gofyn iddyn nhw allu defnyddio offer cyfarfod hybrid y Cyngor ar gyfer cynnal cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol. Dywedodd y swyddogion yr ymgynghorwyd ag adran TG y Cyngor a'i bod yn fodlon gyda'r cynnig, tra'n datgan na fyddai'n gallu darparu cymorth TG ychwanegol ar gyfer cyfarfodydd na phrynu unrhyw offer ychwanegol. Argymhellwyd datblygu protocol neu god ymarfer ar gyfer defnyddio offer y Cyngor dan yr amgylchiadau hyn.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o ran a fyddai torri'r cod ymarfer arfaethedig yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad ac yn cael sylw yn yr un modd, neu a fyddai angen proses ar wahân. Dywedodd y swyddogion y byddai'n cael ei ystyried fel achos o dorri'r Cod Ymddygiad ac y byddai'n cael sylw felly.

Gofynnodd yr aelodau am gadarnhad na fyddai cost ychwanegol i'r Cyngor. Cadarnhaodd y swyddogion mai felly yr oedd hi.

Gofynnodd yr aelodau i wybod a fyddai defnyddio offer fel hyn yn amharu ar wasanaethau eraill y Cyngor. Argymhellodd y swyddogion y dylai'r cod ymarfer gynnwys darpariaeth y byddai cyfarfodydd a busnes y Cyngor yn cael blaenoriaeth.

PENDERFYNODD y Pwyllgor:

1) Argymell i'r Cyngor: (a) awdurdodi caniatáu i'r Aelodau ddefnyddio offer TG y Cyngor i gynnal a neu ymuno â chyfarfodydd grwpiau gwleidyddol a gynhelir o bell (yn llawn neu'n rhannol), yn unol â chod ymarfer cytunedig; a (b) diwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau fel y nodir ym mharagraff 15 yr adroddiad;
2) Cytuno bod ei sylwadau yn cael sylw yn y cod ymarfer i'w roi ar waith mewn perthynas â defnyddio adnoddau'r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol;
3) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Rheolwr y Gwasanaethau TG a chwipiau grwpiau pleidiau, i ddatblygu a chytuno ar god ymarfer ar ddefnyddio adnoddau'r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol, i'w gymeradwyo gan y Cyngor; a

Derbyn adroddiad gwybodaeth ar y mater hwn maes o law.

## 23 : BRÎFF AELODAU

Gwahoddodd y Cadeirydd Davina Fiore, y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro, i gyflwyno'r eitem. Diben yr eitem oedd ystyried cynnwys y Brîff Aelodau nesaf a chymeradwyo trefniadau ar gyfer cwblhau a chyhoeddi'r Brîff.

PENDERFYNODD y Pwyllgor:

1) Gytuno ar gynnwys ac amseru'r Brîff Aelodau, fel y nodir yn yr adroddiad;
2) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i gwblhau'r Briff, gan ystyried y sylwadau a gafwyd gan Aelodau'r Pwyllgor; a

Chyfarwyddo'r Swyddog Monitro i gyhoeddi'r Brîff Aelodau terfynol i holl Aelodau Cyngor Caerdydd a chwe Chyngor Cymuned Caerdydd.

24 : FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU CENEDLAETHOL

Gwahoddodd y Cadeirydd Davina Fiore, y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro, i gyflwyno'r eitem. Diben yr eitem oedd ystyried cynigion mewn perthynas â sefydlu Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol a'i gylch gorchwyl.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cynnig hwyluso cyfarfodydd rheolaidd rhwng cadeiryddion pwyllgorau Safonau a bod cylch gorchwyl wedi'i awgrymu. Y bwriad yw y byddai cadeiryddion neu is-gadeiryddion yn mynychu cyfarfod i drafod a chytuno ar y cylch gorchwyl.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o ran a fyddai cyfarfodydd y Fforwm yn ychwanegol at gynadleddau blynyddol aelodau'r Pwyllgorau Safonau. Cadarnhaodd y swyddogion nad bwriad y Fforwm oedd disodli'r cynadleddau.

PENDERFYNODD y Pwyllgor nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

25 : OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN STRATEGOL 2023-26 DRAFFT

Gwahoddwyd y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Strategol 2023-26 drafft yr Ombwdsmon.

Cytunodd yr aelodau ar ddyddiad cau ar gyfer anfon sylwadau at y Swyddog Monitro.

PENDERFYNODD y Pwyllgor:

1) Ystyried yr ymgynghoriad ar Gynllun Strategol 2023-26 yr Ombwdsmon (Atodiad A), a chyflwyno unrhyw sylwadau mewn perthynas â materion sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor erbyn dydd Mercher 2 Tachwedd 2022;
2) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i gyflwyno ymateb i ymgynghoriad yr Ombwdsmon, ar ran y Pwyllgor, gan adlewyrchu'r safbwyntiau a fynegwyd; a

Gofyn i'r Swyddog Monitro ddosbarthu copi o'r ymateb i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd i holl aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth.

26 : RHAGLEN WAITH 2022-23

Ystyriodd yr aelodau Raglen Waith y Pwyllgor a chytunon nhw ar yr eitemau i'w hystyried gan y Pwyllgor Safonau a Moeseg yn 2022/23.
PENDERFYNODD y Pwyllgor nodi a chytuno ar y Rhaglen Waith ddrafft ar gyfer 2022/23.

27 : DATGANIADAU BUDDIANNAU PERSONOL UWCH SWYDDOGION

*Gadawodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro'r cyfarfod wrth i'r eitem hon gael ei thrafod o ganlyniad i'w buddiant rhagfarnus a ddatganwyd.*

Gwahoddwyd Kumi Ariyadasa, Cyfreithiwr Llywodraethu i gyflwyno'r eitem. Diben yr eitem oedd adolygu'r datganiadau buddiannau personol a wnaed gan Uwch Swyddogion y Cyngor, yn unol â gofynion Polisi'r Cyngor ar Fuddiannau Personol a Chyflogaeth Eilaidd Swyddogion.

PENDERFYNODD y Pwyllgor nodi'r wybodaeth yn Natganiadau Buddiannau Personol yr Uwch Swyddogion.

28 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

29 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF.

Caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 14 Chwefror 2023.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.30 pm